## P-04-480 Mynd i’r afael â Safon Tai Myfyrwyr yn y Sector Preifat

**Geiriad y ddeiseb:**

Galwn ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ymchwilio i’r problemau a nodwyd yn yr adroddiad diweddar am yr arolwg o dai yn Aberystwyth yn 2012. Cododd yr adroddiad bryderon ynghylch safon wael llety myfyrwyr a’r ffordd wael, sy’n cyfateb i hynny, y caiff myfyrwyr eu trin yn y sector rhentu preifat. At hynny, galwn ar Lywodraeth Cymru i gynnal ymgynghoriad llawn ac agored ynghylch y mater angof hwn gyda’r cymunedau y mae hyn yn effeithio arnynt, yn ogystal â sicrhau bod deddfwriaeth tai bresennol a mesurau newydd gan yr awdurdodau perthnasol yn cael eu dilyn yn gywir er mwyn cynorthwyo i godi safonau yn y sector rhentu preifat.

Mae tai myfyrwyr wedi bod yn broblem gyson yn Aberystwyth ers blynyddoedd. Cynhaliwyd arolwg ymysg myfyrwyr ynghylch eu profiadau o ran tai ac mae manylion am y problemau maent yn eu hwynebu wedi’u cynnwys mewn adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2012.

**Prif ddeisebydd**: Aberystwyth Students Union

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor**: 14 Mai 2013

**Nifer y llofnodion** : 188